

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Cymunedau

Dyddiad: 3 Gorffennaf 2015

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 9 GORFFENNAF 2015** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 28 Mai 2015 (copi ynghlwm).

9:30am – 9:35am

5 METHODOLEG AR GYFER PENNU FFI OEDD PARCIO CEIR PRIODOL YN SIR DDINBYCH (Tudalennau 13 - 36)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol a'r Rheolwr Trafnidiaeth, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd (copi ynghlwm) sy'n gofyn am farn aelodau ar y fethodoleg a ddefnyddir i bennu ffioedd meysydd parcio yn Sir Ddinbych a'r egwyddorion a fabwysiadwyd ar gyfer negodi trefniadau cymhorthdal gyda chynghorau tref a/neu gyrff eraill.

9:35am – 10:30am

Egwyl Gysur

6 DIWEDDARIAD PROSIECT RHEOLEIDDIO MEYSYDD CARAFANNAU YN WELL (Tudalennau 37 - 84)

Ystyried adroddiad gan yr Hyfforddai Graddedig: Gwella Busnes a Moderneiddio (copi ynghlwm) sy'n gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar y cynnydd hyd yma a chymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer y camau nesaf a gynllunnir.

10:45am – 11:30am

7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO
(Tudalennau 85 - 100)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi diweddariad i'r aelodau ar faterion perthnasol.

11:30am – 11:50am

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau Cyngor

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts
(Cadeirydd)

Brian Blakeley
Bill Cowie
Peter Arnold Evans
Martyn Holland

Y Cyngorydd Rhys Hughes (Is-
Gadeirydd)

Win Mullen-James
Bob Murray
Cefyn Williams
Cheryl Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ddydd Iau, 28 Mai 2015 am 9.30am yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun

Yn bresennol:

Cynghorwyr Bill Cowie, Peter Evans, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Rhys Hughes, Bob Murray a Cefyn Williams

Roedd yr Aelod Arweiniol David Smith yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

Roedd y Cynghorwyr Bobby Feeley, Jason McLellan a Barbara Smith yn bresennol fel sylwedyddion.

Hefyd yn bresennol:

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Rheolwr Cynllunio Datblygu a Pholisi (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Swyddog Gwasanaethau Democraidd (KE).

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Win Mullen-James a'r Cynghorydd Cheryl Williams

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bill Cowie i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o'r Pwyllgor, yn cynrychioli'r Grŵp Annibynnol.

2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau am aelod i wasanaethu fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn gyngor 2015/16. Cafodd y Cynghorydd Rhys Hughes ei enwebu a'i eilio. Felly:

Penderfynwyd: - Penodi'r Cynghorydd Rhys Hughes yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn gyngor 2015/16.

3 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

4 MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

5 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ddydd Iau, 24 Ebrill 2015.

PENDERFYNWYD – y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.

6 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION GAN Y GRŴP TASG A GORFFEN TAI Fforddiadwy

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd yr adroddiad a oedd yn cynnwys casgliadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen. Eglurodd fod y Grŵp Tasg a Gorffen wedi cael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor Mai 2014 ar yr angen i'r Awdurdod i egluro ei ymagwedd tuag at ddarparu tai fforddiadwy.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Grŵp Tasg a Gorffen wedi gwneud cyfanswm o 20 o argymhellion, roedd manylion pob un ohonynt yn yr adroddiad. Roedd materion a godwyd gan aelodau mewn sesiwn Briffio'r Cyngor yn ddiweddar lle trafodwyd adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen (TaG) wedi eu rhestru yn Atodiad II, ynghyd â'r argymhellion perthnasol yn yr adroddiad a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion hyn. Er byddai'r argymhellion gan waith y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael eu defnyddio i lywio'r strategaeth dai ddrafft newydd, a byddai'n ffurfio rhan o'r cynllun darparu ar gyfer y strategaeth honno, roedd rhai camau gweithredu eisoes wedi eu cychwyn gyda'r bwriad o fynd i'r afael â phroblemau a nodwyd e.e. deddfwriaeth oedd gan Lywodraeth Cymru ar y gweill a chanllawiau o ran caniatáu adolygiadau rhannol o Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI), roedd Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor o ran caniatáu trosi adeiladau gwledig segur ar gyfer tai ar y farchnad.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd a'r Swyddogion:

- roedd yn rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i CDLI bedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu. Byddai angen gwneud adolygiad Sir Ddinbych yn 2017;
- Roedd yr arwyddion diweddaraf gan LIC yn awgrymu dylai'r deddfwriaeth sydd ei angen i ganiatáu adolygiadau rhannol fod yn ei lle rywbryd yn ystod haf 2015, ac y byddai'r canllawiau cysylltiedig ar gael ar yr un pryd. Byddai hyn, gobeithio, yn galluogi'r Cyngor i weithredu rhai o argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen;
- Roedd y broses sy'n ymwneud â gwneud cais a chaniatáu ceisiadau cynllunio mewn pentrefannau yn hynod feichus, fodd bynnag, efallai gellir

adolygu'r broses hon fel rhan o'r adolygiad rhannol - yn amodol ar ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth newydd;

- byddai'r Strategaeth Dai newydd, a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r pwyllgor archwilio ym mis Medi a'r Cyngor llawn ym mis Hydref 2015, â phum prif thema. Tai Fforddiadwy fyddai ail thema'r Strategaeth, ond byddai materion yn ymwneud â thai fforddiadwy hefyd yn ymddangos yn y rhan fwyaf o'r chwe thema;
- mewn perthynas â bancio tir, ni ellid newid terfynau amser ar gyfer datblygu safle yn dilyn caniatâd cynllunio yn lleol. Roedd y rheolau mewn perthynas â hyn yn destun deddfwriaeth LIC. Byddai'n rhy hwyr nawr i wneud sylwadau mewn perthynas â diwygio'r terfynau amser fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Mesur Cynllunio newydd. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn parhau i lobio Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r mater;
- byddai'r Pennaeth Cyllid ac Asedau Dros Dro newydd yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer gwireddu'r gwerth gorau posibl i'r Cyngor ar gyfer ail-fuddsoddi'r £500K a amcangyfrifwyd i gael ei wireddu ar ôl ymadawiad y Cyngor o'r system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (HRAS) – byddai'r opsiynau a fyddai'n cael eu hystyried yn cynnwys adeiladu tai cyngor newydd (o bosibl mewn partneriaeth gyda thrydydd parti); gwneud gwaith gwella pellach ar stoc tai presennol y Cyngor (e.e. gwaith allanol neu amgylcheddol - gwaith nad oedd yn dod o dan y cynllun Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), gan ddefnyddio'r arian a arbedwyd at y diben o dynnu i lawr arian allanol ac ati);
- Roedd gwaith wedi dechrau ar adolygiad o ddaliadau tir y Cyngor i asesu a oedd unrhyw daliadau wedi eu lleoli mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf am dai fforddiadwy. Yn y dyfodol byddai angen gwneud gwaith mewn partneriaeth â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus i nodi a oedd ganddynt unrhyw daliadau tir a fyddai'n addas ar gyfer datblygu tai fforddiadwy. Byddai angen trafodaeth fanwl ac adeiladol gyda phob parti pe bai tir i'w sicrhau ar gyfer tai fforddiadwy, gan yn y mwyafrif o achosion, ni fyddai tir a glustnodwyd ar gyfer y math yma o dai yn gwireddu ei werth llawn ar y farchnad agored;
- Byddai'r Cynllun Gweithredu Tai Fforddiadwy, a ddatblygwyd gyda'r bwriad o gyflawni argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen, a oedd yn cynnwys dyddiadau targed ar gyfer cyflawni pob argymhelliad, yn ffurfio rhan o Strategaeth Tai cyffredinol y Cyngor maes o law

Pwysleisiodd y Cynghorwyr:

- Dylai'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn y dyfodol gynnwys cymysgedd o anheddau dwy a thair ystafell wely i deuluoedd a fyddai'n darparu cyfleoedd i deuluoedd i symud i fyny'r ysgol dai a galluogi deiliaid tai tro cyntaf i gael troed ar yr ysgol dai, boed yn denantiaid, yn rhannu perchnogaeth neu yn berchnogion preswyl;

- yr angen am unrhyw dai cymdeithasol sy'n cael ei hadeiladu yn y dyfodol i gynnwys cafeat eu bod wedi'u heithrio rhag unrhyw gynllun 'hawl i brynu' er mwyn lleihau'r risg o brinder tai o'r fath yn y tymor canolig i'r tymor hir;
- yr angen i ganolbwyntio ar anghenion tai trigolion a'r agwedd gwerth am arian i drethdalwyr - byddai buddsoddi mewn tai fforddiadwy o ansawdd da ar gyfer rhai o drigolion mwyaf diamddiffyn y Sir yn y tymor hir yn dod â manteision ariannol i'r Cyngor, gan y byddai llai o arian trethdalwyr yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu at renti gormodol yn y sector preifat drwy Fudd-dal Tai;
- yr angen i godi ymwybyddiaeth o'r gofrestr tai fforddiadwy a'r broses ar gyfer cofrestru heb godi disgwyliaid pobl. Dywedodd y swyddogion eu bod ar hyn o bryd yn gweithio gyda gwerthwyr tai ac awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru i ddatblygu dull mwy syml i'r broses hon, gyda golwg ar osgoi dyblygu a'r angen i lenwi ffurflenni cofrestru hir tan yn llawer hwyrach yn y broses ddyrannu

Dywedodd Cyngorwyr a oedd wedi bod yn aelodau o'r Grŵp Tasg a Gorffen pa mor dda roedd yr aelodau a'r swyddogion wedi gweithio gyda'i gilydd yn ystod yr adolygiad hwn, roedd wedi bod yn broses wirioneddol gwerth chweil ac adeiladol. Maent yn awr yn gobeithio y gellid cadw'r momentwm ac y gellid darparu'r argymhellion cyn gynted â phosibl er budd y trigolion. Cytunodd y swyddogion i anfon nodyn briffio i'r aelodau yn eu diweddarau ar y cynnydd hyd yma gyda chyflawni'r Cynllun Gweithredu Tai Fforddiadwy, a chytunodd yr aelodau dylai'r Strategaeth Tai ddrafft gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w archwilio ym mis Medi 2015. Felly:

Penderfynwyd:

(i) yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn y casgliadau a'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen Tai Fforddiadwy; a

(ii) cyflwyno Strategaeth Tai ddrafft y Cyngor i'r Pwyllgor i'w archwilio yn ei gyfarfod ym mis Medi 2015, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu ym mis Hydref 2015

7 DIOGELWCH BWYD, SAFONAU A CHAFFAEL - Y DIWEDDARAF

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd yr adroddiad a rhoddodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd fanylion am y gwaith a oedd wedi ei wneud o fewn y deuddeg mis diwethaf o ran yr agwedd reoliadol o ddiogelwch bwyd a safonau ac i wella caffael a rheoli contractau ymarferion caffael bwyd y Cyngor ei hun ar gyfer y gwahanol sefydliadau y mae'n ei weithredu. Dywedodd yr Aelod Arweiniol ei fod mynd gyda swyddogion diogelwch bwyd a safonau masnach ar rai o'u hymweliadau, gan gynnwys ymweliadau â ffreuturau ysgol. Roedd wedi cael argraff dda iawn gan drylwyredd eu gwaith a'u proffesiynoldeb wrth gynnal eu gwaith o ddydd i ddydd.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol a'r Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd:

- mae'n ofyniad statudol i fannau gwerthu bwyd arddangos eu sgôr hylendid bwyd (sef y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd). Gall methu cydymffurfio â hyn arwain at Rybudd Cosb Benodedig;
- Roedd pob man gwerthu bwyd, boed yn breifat neu gyhoeddus, yn destun arolygiadau hylendid bwyd a safonau;
- dyletswydd pob busnes unigol oedd cofrestru'r ffaith eu bod yn gwerthu bwyd neu ddiod gyda'r awdurdod lleol. Byddai swyddogion fel mater o drefn, fel rhan o'u hymweliadau â busnesau eraill, yn cadw llygad am allfeydd newydd sy'n gweithredu yn yr ardal a gwirio cofnodion y Cyngor i sicrhau eu bod wedi cofrestru. Os yw'n amlwg nad oedd ganddynt, byddai'r busnes yn cael eu cysylltu i'w cefnogi gyda'r broses honno neu brosesau cysylltiedig eraill;
- Byddai busnesau sy'n sgorio sgôr hylendid bwyd o 1 neu 2 yn cael ei rhoi mewn categori 'risg uwch' ac felly angen mwy o gymorth i wella eu sgôr. Roedd swyddogion safonau bwyd yn mabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at y busnesau hyn a byddai'n cynnig cyngor a chefnogaeth i'w helpu i wella mewn pryd ar gyfer yr arolygiad dilynol. Croesawodd y rhan fwyaf o fusnesau'r gefnogaeth a roddwyd gan ei fod er eu lles i wella eu 'sgoriau'. Roedd amseriad yr arolygiadau dilynol yn ddibynnol ar natur y broblem y tu ôl i'r sgôr cychwynnol a'r amser sydd ei angen i'w gywiro h.y. diffyg glendid neu angen newid hen offer. Byddai digon o amser yn cael ei roi i ddatrys problemau a nodwyd;
- Byddai ymweliadau dilynol ac ati yn cael eu cynnwys yng nghynllun busnes y Gwasanaeth gan fod disgwyl i swyddogion ymgymryd â chanran benodol o ymweliadau o'r fath bob blwyddyn
- cynhaliwyd ymweliadau hylendid bwyd yn ddirybudd bob yn hyn a hyn yn dibynnu ar y categori risg a roddwyd i'r busnes, a all fod rhwng 6 mis ar gyfer Categori A a 24 mis ar gyfer Categori D. Eithriad oedd hi i'r perchennog busnes wrthod mynediad i arolygydd hylendid/safonau bwyd. Os oeddent yn gwrthod y prif reswm oedd diffyg dealltwriaeth ac unwaith yr eglurwyd y sefyllfa iddynt roeddent yn caniatáu i'r ymweliad fynd rhagddo;
- Pe bai angen i gynhyrchydd bwyd arbenigol fod yn bresennol yn ystod arolygiad byddai'r ymweliad wedyn yn cael ei threfnu ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod yr holl staff perthnasol wrth law;
- roedd yr arolygwyr hylendid bwyd yn gweithio ar draws y sir, ond roeddent yn blaenoriaethu eu gwaith fesul ardal er mwyn lleihau costau teithio ac ati. Fodd bynnag, os oeddent mewn ardal yn ymateb i gŵyn efallai y byddant hefyd yn ymgymryd â nifer o arolygiadau arferol yn yr un ardal er mwyn bod yn gost effeithiol;
- Roedd ffeiriau teithiol ac allfeydd bwyd symudol yn cael eu rheoli gan yr un rheoliadau hylendid a diogelwch bwyd. Roedd y busnesau hyn wedi eu cofrestru gydag 'awdurdod cartref' y perchennog busnes, fodd bynnag, nid oedd

hyn yn gwahardd unrhyw awdurdod yr oeddent yn ymweld ag o rhag eu harolygu neu ddelio ag unrhyw gwynion a dderbyniwyd;

- byddent yn gwirio ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau ar y tendr a'r broses diwydrwydd dyladwy a ddefnyddiwyd gyda chontract Gwasanaeth Arlwyo'r Cyngor a ddyfarnwyd i Hughes Meats Bangor;
- mewn perthynas â sgoriau hylendid isel a roddwyd i ddau ysbyty yn y Sir dros y misoedd diwethaf, dywedwyd bod y Bwrdd Iechyd yn awyddus i weithio gyda swyddogion i ddatrys y problemau a nodwyd. Cadarnhawyd bod gan y Cyngor y staff angenrheidiol i gefnogi'r gwaith hwn.

Gan fod y sgoriau hylendid isel hyn mewn ysbytai lleol yn achosi pryder i drigolion gofynnodd y Pwyllgor am gael copïau o'r adroddiadau arolygu a nodyn briffio ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn i ddatrys y problemau.

Ar ddiwedd y drafodaeth gofynnodd y Pwyllgor i'r Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd a'r Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd i gyfleu gwerthfawrogiad yr aelodau i staff y Gwasanaeth am eu gwaith caled a'u hymdrechion yn y maes hwn. Felly:

Penderfynwyd:

(i) yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion yn yr Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen; a

(ii) bod adroddiad gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen deuddeng mis ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2015/16 gyda diogelwch bwyd, safonau a chaffael.

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (SC), a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol ac oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cadarnhaodd SC bod y ffurflenni newydd (atodiad 2) i wneud cais am eitemau i'w cynnwys ar agendâu archwilio bellach wedi'u rhoi ar waith. Hyd yn hyn nid oedd unrhyw ffurflenni wedi dod i law, ond byddai eitemau a godwyd yn y cyfarfod yn cael eu cynnwys.

Ystyriodd y Pwyllgor y Rhaglen Waith i'r Dyfodol ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, Atodiad 1. Dywedodd yr SC wrth y Pwyllgor fod swyddogion wedi gofyn i'r adroddiad parcio ceir gael ei ddwyn ymlaen i gyfarfod mis Gorffennaf. Rhoddodd y Cadeirydd ganiatâd i'r cais hwn.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Gweinidog Llywodraeth Cymru (LIC) wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod ym mis Gorffennaf ar gyfer y drafodaeth ar yr effaith ar y Cyngor o ran yr hysbysiad hwyr o ddyrannu cyllid grant y llywodraeth ganolog. Fodd bynnag, cafodd y gwahoddiad ei wrthod ac roedd wedi awgrymu y gallai fod yn fwy priodol i gynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) fod yn bresennol. Roedd Pennaeth Cyllid CLILC wedi cynnig mynychu cyfarfod y Pwyllgor ar 10 Medi ar gyfer y drafodaeth.

Cytunwyd mai'r ddwy eitem ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf fyddai:

1. Polisi Codi Tâl am Barcio Ceir
2. Rheoleiddio Meysydd Carafannau yn Well

Yn dilyn y Cyngor Blynyddol ar 12 Mai gofynnwyd i'r Pwyllgor benodi/ ailbenodi aelodau i wasanaethu ar Grwpiau Herio Gwasanaeth y Cyngor (atodiad 5). Cytunwyd ar y newidiadau canlynol i benodiadau:

- Datblygu Economaidd a Busnes - Y Cynghorydd Bill Cowie,
- Cwsmeriaid a Chymorth Addysg - Y Cynghorydd Rhys Hughes,
- Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd - y Cynghorydd Pete Prendergast,
- Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden - y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Ni ddaeth unrhyw adroddiadau i law.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---------------------------------|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Archwilio Cymunedau |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 9 Gorffennaf 2015 |
| Aelod/Swyddog Arweiniol: | Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus/ Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol |
| Awdur yr Adroddiad: | Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol a'r Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffordd |
| Teitl: | Methodoleg ar gyfer pennu taliadau parcio priodol yn Sir Ddinbych |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Y fethodoleg a ddefnyddir wrth bennu taliadau parcio priodol yn Sir Ddinbych, a'r egwyddorion sydd wedi'u mabwysiadu ar gyfer trafod trefniadau cymhorthdal gyda Chynghorau tref, a/neu unrhyw gyrrff eraill

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae pennu'r ffioedd a'r taliadau wedi ei ddirprwyo i lefel y Pennaeth Gwasanaeth, gyda'r disgwyliad yr bydd yn ymgynghori ag Aelodau ynglŷn ag unrhyw newidiadau dadleuol. Yn amlwg, mae'n bosibl y bydd gwneud newidiadau i ffioedd meysydd parcio yn ddadleuol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ac yn rhoi sylwadau ar yr argymhellion gan gydnabod;

- bod rhaid mantoli cyllidebau, gan gynnwys y gyllideb ar gyfer meysydd parcio.
- bod y fethodoleg a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn darparu dull rhesymegol o bennu taliadau, o benderfynu ar lefelau incwm ac o gwrdd â phrif angen gweithredol y gwasanaeth, h.y. cynyddu argaeledd manau parcio ar gyfer siopwyr ac ymwelwyr; ac
- y gallai'r gyllideb derfynol gael ei hamrywio drwy gyfrwng y broses o bennu cyllideb y Cyngor, gan gynnwys unrhyw newidiadau a allai godi yn sgil y broses Rhyddid a Hyblygrwydd. Yn amlwg, mae gan hynny'r potensial i effeithio ar y taliadau y byddai angen eu codi.

4. Manylion.

4.1 Cefndir

- 4.1.1 Yn Sir Ddinbych, nid yw taliadau parcio wedi cynyddu ers 6 mlynedd. Dros y cyfnod hwnnw o 6 mlynedd mae'r mynegai prisiau manwerthu wedi codi tua 18%, a dros yr un cyfnod mae'r diffyg yn y gyllideb wedi codi i tua £150,000 y flwyddyn. (Gweler Atodiad A am ragor o fanylion.) Gwneir yn iawn am y diffyg drwy gyfrwng croesgymorthdaliadau o gyllideb gyffredinol cynnal a chadw priffyrdd.
- 4.1.2 Os parhawn i roi croesgymorthdaliadau o gyllideb cynnal a chadw priffyrdd, byddwn yn tanseilio un o brif flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor (h.y. gwella cyflwr ein

ffyrdd). Nid yw'r Aelodau erioed wedi gwneud dewis ymwybodol i roi cymhorthdal i gyllideb y meysydd parcio. Yn hytrach, gadawyd i'r sefyllfa ddatblygu dros amser.

Digwyddodd y newid mawr yn y sefyllfa gyllidebol o ganlyniad i'r newidiadau i'r ddarpariaeth manwerthu yn ein dwy brif dref arfordirol. Cyn hynny, roedd y sefyllfa ariannol yn gymharol sefydlog. Ymddengys bod gennym sefyllfa sefydlog yn awr hefyd (serch bod hynny gyda chroesgymhorthdal).

- 4.1.3 Mae'r broses o bennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2016-17 yn cynnwys y broses Rhyddid a Hyblygrwydd, a gellid ystyried yr anghysondeb cyllidebol presennol fel rhan o'r broses honno, h.y. cyn y caiff taliadau parcio ceir eu cwblhau'n derfynol. Er enghraifft; *gallai'r* Aelodau benderfynu eu bod am gymryd arian o'r gyllideb cynnal a chadw priffyrdd, a gwneud y croesgymhorthdal parcio presennol yn barhaol. Yn amlwg, fel Pennaeth Priffyrdd, byddwn yn cynghori'r Aelodau i beidio â gwneud hynny, gan nad yw gwario llai ar gynnal a chadw ffyrdd, ar adeg pan fo llai o gyllid gan Lywodraeth Cymru gogyfer â ffyrdd yn beth doeth nac yn beth cynaliadwy i'w wneud. Fodd bynnag, yr aelodau fydd yn penderfynu ar lefelau'r gyllideb.
- 4.1.4 Er mai'r Aelodau fydd yn penderfynu ar lefelau cyffredinol y gyllideb, nid yw'n deg, nac yn rhesymol, disgwyl iddynt bennu taliadau ar gyfer meysydd parcio unigol, ar gyfer cyfnodau aros unigol, a dyna pam y dirprwyir y swyddogaeth honno i lefel swyddog. Mae angen bod y trefniadau codi tâl yn cael eu gweld i fod wedi cael eu datblygu mewn modd rhesymegol a theg, ac felly isod, amlinellir y mecanweithiau sydd wedi cael eu defnyddio i gyrraedd safle codi tâl teg a rhesymegol o fewn y gyllideb a ddyrannwyd:

4.2 Egwyddorion Sylfaenol a ddefnyddiwyd i bennu lefel y taliadau

- 4.2.1 Mae taliadau parcio ceir yn angenrheidiol, yn gyntaf i gael arian i dalu am eu darparu, ac yn ail i reoli a rheoleiddio trosiant llefydd parcio. Dyma ymdrin â phob un yn ei dro:

4.3 Costau Darparu

- 4.3.1 Dylai'r 'costau darparu' gynnal 'costau oes' asedau h.y. gan gynnwys costau darparu asedau, costau gweithredol a chostau cynnal a chadw. Dylai gwerth yr asedau gydnabod costau colli cyfle / costau adnewyddu. Gellir gweld yr egwyddor yn fwyaf amlwg yn achos ein meysydd parcio tanddaearol/aml-lawr, ond mae'r un egwyddorion sylfaenol yn berthnasol i bob un o'n safleoedd. Hefyd, mae angen buddsoddi yn yr isadeiledd i'r dyfodol, e.e. peiriannau talu ac arddangos 'clyfar' sy'n medru ymdopi â dulliau modern o dalu.
- 4.3.2 Pe cymhwysid yr egwyddorion hyn ar draws ein meysydd parcio ar sail fasnachol, gallai'r cyfraddau tâl a fyddai'n deillio o hynny fod ddwywaith neu deirgwaith yn uwch na'r ffioedd a gynigir yn yr adroddiad hwn. Yn amlwg, nid gweithredwr masnachol yw'r cyngor, ac nid oes unrhyw awydd na bwriad i redeg y meysydd parcio ar sail fasnachol. Serch hynny, mae'n iawn inni roi ystyriaeth i bethau megis gwerth asedau a chostau amnewid. Nid oes y fath beth â maes parcio am ddim. Mae'n rhaid talu am bob un ohonynt mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, drwy gydol eu hoes.

4.4 Rheoleiddio argaeledd llefydd parcio

- 4.4.1 Mewn meysydd parcio siopa prysur rydym yn ceisio optimeiddio trosiant (creu gofod), gan gadw golwg ar faint o amser a gymer 'taith siopa' (cerddwyr)

nodweddiadol. Fel hyn gallwn fanteisio i'r eithaf ar y 'potensial gwario' mewn tref. Nododd yr Adolygiad Traffig a Pharcio bod gennym ormod o feysydd parcio arhosiad hir ar hyn o bryd, h.y. mewn mannau a ddylai fod ar gyfer siopwyr, ar y stryd ac mewn meysydd parcio. O ganlyniad, gall fod yn anodd i siopwyr ddod o hyd i fannau parcio'n hawdd, ac mae hyn yn lleihau ein gallu i ddal cwsmeriaid sydd yn mynd heibio. Mae angen inni ddefnyddio cyfundrefnau prisio a fydd yn denu gweithwyr i'r meysydd parcio mwy diarffordd, a'u hatal rhag cymryd llefydd parcio siopwyr. Y casgliad anorfod yw bod angen prisio mewn modd gwahaniaethol rhwng meysydd parcio a'i gilydd i reoli galw. Mae ein meysydd parcio felly'n cael eu categoreiddio'n gyffredinol naill ai yn rhai arhosiad hir neu'n rhai arhosiad byr. O'r herwydd mae'r Atodlenni Prisio yn Atodiad B yn amrywio yn ôl lleoliad (e.e. mae prisiau meysydd parcio i siopwyr yng nghanol tref yn wahanol i'r rhai ar ymylon trefi).

- 4.4.2. Mae codi tâl yn gwbl angenrheidiol, h.y. i reoli ymddygiad. Ni ddylai Cyngor Sir Ddinbych ymrwngthod â'i gyfrifoldeb dros lunio polisi yn y maes hwn, oherwydd gall y polisïau sy'n cael eu mabwysiadu effeithio ar lefelau gweithgarwch economaidd (sydd yn rhywbeth y mae gan y Cyngor ddiddordeb brwd ynddo.) Mae'r polisïau a gaiff eu mabwysiadu hefyd yn effeithio ar ein gallu i ofalu am ddiogelwch ac am lif dirodres y traffig.

4.5 Y cyfraddau tâl a gynnigir ar gyfer Sir Ddinbych

Mae'r cyfraddau tâl a nodir yn Atodiad B wedi'u datblygu yn defnyddio'r egwyddorion sydd wedi eu hesbonio yn 4 i) a 4 ii) uchod. Yn fy marn i, o roi ystyriaeth briodol i'r ddwy agwedd, bydd y Cyngor yn pennu'r ffioedd priodol. Mae'r lefelau tâl sy'n deillio o hynny'n debyg iawn i'r rhai sy'n cael eu cymhwyso ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Gweler Atodiad C.

Mae'r cyfundrefnau codi tâl yn seiliedig ar gyfnod hanner diwrnod o 3 awr yn hytrach na 4 awr. Ystyrir bod y newid hwnnw'n angenrheidiol er mwyn lleihau'r risg fod gweithwyr yn cymryd llefydd parcio ar gyfer siopwyr, gan roi arian yn y mesurydd dros amser cinio (sef yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd).

Ni fydd y ffioedd ar gyfer Trwyddedau Parcio i Breswylwyr yn newid o dan y cynigion hyn.

Yr unig anghysondeb eraill i'w hystyried yw p'un a i gadw ceidwad parcio yn Stryd y Farchnad, Llangollen, h.y. i ofalu am symudiadau coetsys a materion rheoli parcio eraill. Bydd ymgynghori lleol pellach ynglŷn â'r y cwestiwn hwn, ond os penderfynir bod angen gofalwr, efallai y bydd angen i ni ychwanegu tua 15 ceiniog ar ben ffioedd y maes parcio penodol hwn er mwyn talu am gost y ceidwad. Nid yw'r ymgynghoriad wedi ei gynnal eto, felly nid oes penderfyniad wedi'i wneud chwaith.

4.6 Trafod trefniadau cymhorthdal gyda chynghorau tref

O bryd i'w gilydd cynigir cymorthdaliadau inni gan gynghorau tref. Bydd swyddogion yn ystyried pob achos yn ofalus, ar ei rinweddau ei hun. Mae pennu'r taliad priodol yn gymharol hawdd. Sef, yn y bôn, y swm o arian sydd ei angen i ddisodli'r incwm a gollwyd. Yr agwedd sydd yn fwy cymhleth yw pennu'r cyfraddau mewn modd sy'n cynhyrchu trosiant o ran llefydd parcio. Ceir enghreifftiau o fannau eraill pan fo prisiau wedi'u gostwng, a'r llefydd parcio wedi eu llenwi (e.e. gyda gweithwyr a chymudwyr) gan adael llai o lefydd ar gyfer y bobl yr ydym yn ceisio eu

denu i feysydd parcio canol ein tref, h.y. siopwyr. Gweler Atodiad D am ragor o fanylion (paratowyd pan gynigwyd cymhorthdal gan Gyngor Tref Prestatyn).

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y newidiadau arfaethedig yn cefnogi'r Flaenoriaeth Gorfforaethol o wella cyflwr ein ffyrdd. Bydd y newidiadau hefyd yn gwella argaeledd llefydd parcio i siopwyr a bydd felly yn cefnogi'r flaenoriaeth i gefnogi busnesau lleol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cynlluniwyd y newidiadau arfaethedig i gael gwared ar y diffyg presennol yn y gyllideb, felly nid oes unrhyw gost ychwanegol. Bydd cael gwared ar y croesgymhorthdal o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd o gymorth i'r gwasanaeth hwnnw, ac o gymorth i'r Cyngor wrth gyflawni un o'i flaenoriaethau corfforaethol.

7. Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb – Gweler Atodiad E

Y prif gasgliad yw y bydd y cynnydd arfaethedig mewn taliadau yn cael eu gwrthbwysu gan well argaeledd o ran llefydd parcio, yn enwedig yn y rhai sy'n agos at siopau.

8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Ym mis Ionawr 2015, cytunodd y Pwyllgor Archwilio Cymunedau y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol yn adolygu'r ffioedd parcio. Mae'r pwnc hwn hefyd wedi bod yn destun sesiwn briffio ar gyfer y Cabinet. Cafodd y pwnc ei drafod hefyd fel rhan o broses Rhyddid a Hyblygrwydd 2015-16

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn adolygu'r holl ffioedd a thaliadau'n rheolaidd. Fel yr adroddwyd wrth y Cabinet dros y 18 mis diwethaf mae'r gwasanaeth parcio ar hyn o bryd yn gorwario ac amlygwyd bod cynnal adolygiad o ffioedd parcio yn gam gweithredu rheolaethol angenrheidiol er mwyn mantoli'r gyllideb traffig a pharcio gyffredinol (ynghyd â chymau gorfodaeth). Dylai'r ddau opsiwn a amlygwyd yn yr adroddiad hwn arwain y gwasanaeth at adennill costau yn y tymor byr (1-2 flynedd). Bydd angen cynnal adolygiadau pellach ar ôl y cyfnod hwn os dewisir y prisiau isaf. Mae'r dewis sy'n cael ei gynnig gan y Pennaeth Gwasanaeth yn darparu cyfnod hwy o sefydlogrwydd, a'r gallu i fuddsoddi yn isadeiledd y gwasanaeth.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1 Mae risg y bydd y gostyngiad o ran y diffyg yn y gyllideb bresennol yn llai nag a ragwelwyd. Fodd bynnag, ystyrir bod y risg yn fach, oherwydd i ni ddefnyddio amcangyfrifon ceidwadol wrth gyfrifo.
- 10.2 Efallai y bydd risg i enw da oherwydd gwrthwynebiadau gan fusnesau a thrigolion.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 11.1 Mae gan Bennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol awdurdod wedi ei ddirprwyo i amrywio ffioedd parcio fel y nodir ym mharagraff 3.9 o ran 9.2 o Gyfansoddiad y Cyngor – Cynllun Dirprwyo i Swyddogion
- 11.2 Mae Erthygl 6.3.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi rôl y Pwyllgorau Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisiau.

ATODIADAU:

- A. Crynodeb o'r fethodoleg fanwl*
- B. Y Cyfraddau Tâl sy'n cael eu cynnig*
- C. Cymariaethau â darparwyr gwasanaeth eraill/cynghorau eraill*
- D. Taflen cwestiynau a ofynnir yn aml a baratowyd i fynd i'r afael â Chymorthdaliadau Cynghorau Tref*
- E. Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb*

Swyddogion Cyswllt:

Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffordd

Ffôn: 01824 706801
Ffôn: 01824 706959

1.0 Service statistics

- The Council currently operates 38 pay and display car parks providing an overall total of 4,073 spaces. Of these car parks, 21 are long stay car parks, 11 are short stay and 7 are classed as beach car parks.
- The existing tariff system was introduced in April 2009 and prices have remained constant since. In the same period the Retail Price Index has increased by 18%.
- Under the existing system, car park tariffs are uniform across the County for all town centre car parks except for where a local subsidy exists.
- Gross car park income fell from around £1.08 million per annum in 2012/13 to £940k in 2013/14, a drop of £140k, which was mainly attributable to the opening of Parc Prestatyn and the subsequent impact on car park revenue in both Rhyl and Prestatyn town centre car parks. This deficit is cross-subsidised from the Highway Maintenance budget.
- One of the key findings of the Traffic and Parking Review was a lack of short stay parking spaces in many of Denbighshire's town centres, both within car parks and on-street spaces.
- Additional enforcement and standardisation of time limits is now being undertaken to improve the availability of on-street short stay parking spaces.

2.0 Context of proposed changes

- Car park pricing should be considered as a policy tool to increase the availability of short stay spaces in car parks. For example, the current charging regime means there is no trade off to be made between location and price. This means that car parks closest to the shops become full quickly meaning that there are very few spaces available in these car parks for those shoppers who arrive later on in the day. Anecdotal evidence suggests that the existing 4 hour band has reduced sales of the all day tariff, especially for parking by shop and office workers.
- For example, a motorist can purchase one 4 hour ticket upon arrival in the morning and a further 4 hour ticket at lunchtime for a combined cost of £2 (or £1 in Ruthin) to avoid paying the all day tariff of £3.50.
- An increase in revenue will be necessary to fund additional investment in Pay & Display machines in order to reduce the future requirement for capital funding and any uncertainty around that source of funding. For instance, the total cost of replacing all the Pay and Display machines in one go would be approximately £270,000.
- In order to improve convenience for motorists, there will also be an ongoing need to invest in advanced payment technologies for Pay and Display machines. This will offer alternatives to paying with coins, such as contactless payment and payment by smart phone.
- It is proposed that a new tariff system is introduced to create a greater cost differential between short stay and long stay car parks. It is also proposed to reduce the time duration for the third tariff band from 4 hours to 3 hours.
- The changes proposed would enable shoppers to make a "trade-off" between price and convenience, thereby improving the availability of short stay parking at all times of day.

- The increase would also partially fund further investment in the modernisation of the pay and display machines to enable more flexible and convenient payment options to be made available in the future.

3.0 Financial Information

The total income from Pay and Display tickets for financial year 2014-15 was £864,688. The total income from car park permits was £81,803. The targeted budgetary income was is £1,008,018, i.e. a shortfall of approximately £150,000

The present system of car parking tariffs was implemented in April 2009. It consists of identical charges for all town centre car parks across Denbighshire, for all lengths of stay up to and including 4 hours. All day rates are also the same across Denbighshire and are £3.50 for long stay car parks and £7.00 for short stay car parks. Please see table below.


| Duration of stay | Cost |
|-------------------------------|-------------|
| 30 mins | 10 pence |
| 1 hour | 50 pence |
| 4 hours | £1.00 |
| All day (Long stay car park) | £3.50 |
| All day (Short stay car park) | £7.00 |

Please note that different rates apply to beach car parks and certain other locations such as St Peter's Square in Ruthin and Rhyl Promenade. Different tariffs are currently in place in Ruthin because the Ruthin Member Area Group has chosen to subsidise parking charges whilst funding allows.

Short stay car parks are normally those located closest to retail centres, although there are some exceptions to this, plus examples of where permit holders can park all day in short stay car parks.

Loss of revenue

The table below shows car park revenue for the past eight financial years. Parc Prestatyn opened in March 2013 which is the reason for the noticeable drop in income between financial years 2012-13 and 2013-14 onwards. The reason for this was, in effect, a step change in parking habits in Prestatyn owing to the large, free shopping park car park and a similarly dramatic change in shopping habits as a significant number of shoppers migrated from Rhyl to Prestatyn.



4.0 Traffic and Parking Review

One of the key findings of the Traffic and Parking Review was a lack of short stay parking spaces in many of Denbighshire's town centres, both within car parks and on-street spaces.

The parking surveys undertaken for the Traffic and Parking Review demonstrated that one of the problems with the current tariff system is that charging the same in short stay and long stay car parks for all tariffs up to 4 hours in duration results in many central car parks often being close to capacity, therefore, reducing availability for motorists who don't arrive at the beginning or end of the day.

On-street parking bays provide convenient free parking, usually in close proximity to shops. Surveys undertaken for the Traffic and Parking Review found many examples of such bays being occupied by vehicles for periods between 4 and 6 hours, in other words, far beyond the time limit for these bays. This was resulting to vastly reduced availability of short stay spaces for shoppers. To combat this, increased enforcement of these bays is now being undertaken by Denbighshire's Civil Enforcement Officers. In the longer term it is also proposed that some standardisation of times is implemented to make enforcement simpler and to improve consistency between parking bays for the public.

5.0 Neighbouring authorities

A table showing tariffs charged by some of the other local authorities in North Wales, plus the shopping precinct in Rhyl, is included in Appendix C. This table shows that, with the exception of Flintshire, car parking tariffs in Denbighshire are currently significantly cheaper than elsewhere in the region both for short stay and long stay parking.

6.0 Opportunities

Short stay spaces are vital for capturing passing trade and for helping town centres to compete with alternatives such as supermarkets and retail parks.

Building more car parks or creating additional on-street parking spaces may often not be feasible owing to the costs involved or because there simply is not the physical space available.

£45,000 of capital funding from the Highways and Environmental Services Capital Block Allocation has already been secured to upgrade the existing Pay & Display machines so that they are linked to a central computer in order to provide real time information regarding income patterns such as by tariff band, time of day, day of the week and time of year and so on. It is important that we continue to invest in these machines to keep them well maintained and to begin to offer more high-tech methods of payment such as contactless payment, payment by debit/credit card and payment by smartphone. This is in addition to the existing Pay by Phone facility that is available in some of our car parks. Offering such facilities will ensure that we maximise convenience for shoppers, for example by avoiding the need for them to carry loose change.

7.0 Review Methodology

A pricing model has been developed to examine the impact of varying parking charges and potential impact upon the number of pay and display tickets sold. This effect is known as pricing elasticity. The British Parking Association (BPA) has published a research paper that includes a section regarding pricing elasticity for car parking. This paper lists factors of

elasticity, which are found to vary by parking duration and these factors have been used in the pricing model developed.

Data from pay and display machines in all Denbighshire car parks has been obtained in order to provide a breakdown of how many pay and display tickets have been sold for each pricing tariff band. This data has been used in order to quantify the likely impact on revenue of tariff increases.

8.0 Proposed charging pattern

The Traffic and Parking Review has highlighted the need to increase the availability of short stay parking across the County. The availability of the existing short stay on-street parking will be increased through increased enforcement and some standardisation of the time limits that apply to these bays.

As already discussed in this report, the existing short and long stay parking tariffs are identical except for the cost of the all-day tariff which is £3.50 in long stay car parks and £7.00 in short stay car parks. Whilst this pricing structure is intended to discourage all-day parking in short stay car parks, in reality, there is anecdotal evidence that some shop and office workers purchase a 4 hour ticket in the morning and a second 4 hour ticket at lunch time, effectively providing all day parking for a total of £2.00 (2 x 4 hour tickets at £1.00 each) as opposed to the usual all-day rate of £3.50 or even £7.00. It is obviously not possible for everyone to buy two 4 hour tickets in this way, but there are undoubtedly enough people doing it to noticeably reduce the availability of spaces in some short stay car parks.

As the first three tariff bands are identical between short and long stay car parks, this effectively offers no “trade off” to be made between price and convenience. The reason that various car parks were originally designated as short stay parking is because they are usually the closest to the shops and are, therefore, the most convenient for shoppers. The current pricing structure results in short stay car parks filling up first which offers little availability of spaces for those arriving later in the day.

With the above issues in mind, two options have been developed to create a pricing differential between short stay and long stay car parks. Doing this effectively allows shoppers the option of paying a higher rate in exchange for the convenience of a parking space close to their destination, or alternatively, paying a lower rate to park in a car park that is less conveniently located.

The proposed new charges are summarised in Appendix B. As well as increases in the tariff costs, another change proposed is to reduce the time limit for the third tariff band from 4 hours to 3 hours. This proposed change is designed to discourage the practice of buying two 4 hour tickets instead of purchasing an all-day ticket.

The proposed charges would see the average cost per ticket sold increase by 37.3 pence and would be likely to increase income by around £250k. This option would enable prices to be frozen for roughly 3 years and would also at least partially fund a programme to modernise pay and display machines, such as through providing more flexible payment options.

